CANOLFAN MILENIWM CYMRU
WALES MILLENNIUM CENTRE

# STORI WELEDOL AR GYFER THEATR DONALD GORDON



Mae’r sioe rydych chi’n dod i’w gweld yn cael ei pherfformio yng Nghanolfan Mileniwm Cymru.

Dyma lun o Ganolfan Mileniwm Cymru:



Wrth ddod i mewn drwy'r drysau blaen byddwch chi'n gweld ein bar-caffi Ffwrnais ac un o'n staff croeso.

Os byddwch chi'n troi i'r chwith, byddwch chi'n mynd tuag at ochr Ogleddol yr adeilad lle mae Siop, sy'n cynnwys ein man gwybodaeth a'n hystafell gotiau, a Bocs, ein gofod VR.

Bydd y grisiau a'r lifftiau ar ochr yma'r adeilad yn mynd â chi i seddi rhif 1–28 ar lefelau 1–6.

Os byddwch chi'n troi i'r dde ar ôl dod drwy'r drysau blaen, byddwch chi'n gweld ein stondin gofroddion, a thu hwnt i'r stondin mae toiledau, Caffi, Radio Platfform, Tŷ Cerdd a Bar One.

Bydd grisiau a lifftiau ar ochr yma'r adeilad (De) yn mynd â chi i seddi rhif 29–55 ar lefelau 1–6.




## TOILEDAU

Wrth ddod i mewn i'r adeilad drwy'r drysau blaen trowch i'r dde, ac yn union cyn y grisiau trowch i'r chwith. Bydd y toiledau yn syth o'ch blaen. Mae'r toiledau yma yn cynnwys dau doiled hygyrch, gan gynnwys un sydd â winsh.

Os bydd angen cymorth arnoch, peidiwch â phetruso cyn gofyn i unrhyw un o'n staff mewn laniardiau gwyrdd a fydd ym mhob rhan o'r adeilad. Bydd ein tywyswyr wrth bob drws i'r theatr drwy gydol y perfformiad ac yn ystod eich ymweliad bydd staff hefyd yn crwydro drwy'r cyntedd a'r bariau.



O’r drysau blaen, mae Siop a’r ystafell gotiau ar ochr chwith y cyntedd yn yr ardal gyferbyn â Bocs a’r grisiau.

Byddwch chi’n gallu cael unrhyw gyfarpar sain ddisgrifio sydd ei angen arnoch o’r ystafell gotiau. Gallwch chi hefyd gasglu cadair olwyn os oes angen neu adael eich ci tywys os hoffech chi yn ystod eich ymweliad.

Hefyd yn yr ardal yma mae ein clustogau y gall fod eu hangen arnoch yn ystod eich ymweliad.

## OS YDYCH CHI’N DEFNYDDIO EIN MAES PARCIO BATHODYN GLAS

I gyrraedd y Maes Parcio Bathodyn Glas, bydd angen i chi yrru i gefn Canolfan Mileniwm Cymru. Yna byddwch chi’n cael mynediad i’r safle.




I fynd i mewn i’r adeilad o’r maes parcio, trowch i’r dde tuag at y drysau llithro. Byddwch chi’n dod i mewn i’r adeilad ar ochr y rhifau isel (1–28). Os yw eich sedd yn un o’r rhifau yma, gallwch chi fynd yn y lifft sydd 14 o gamau i ffwrdd ac ar y chwith.






Os ydych chi’n eistedd mewn sedd â rhif uchel (29–55) bydd angen i chi gerdded ar hyd y cyntedd i gyrraedd y grisiau neu’r lifft arall. Ewch heibio i’r lifft a throwch i’r chwith i gerdded drwy Ffwrnais.

CANOLFAN MILENIWM CYMRU
WALES MILLENNIUM CENTRE

# EICH TOCYN

Dyma sut bydd eich tocyn yn edrych:




**Ychwanegwch eich tocynnau i'ch Apple Wallet neu Google Wallet**

**Nye**
Saturday, 18 May 2024 7:30PM
Donald Gordon Theatre,
**Stairs A Level 1 Door 3 Box C - C2**
Rhif tocyn: 15234817

Add to Google Wallet
Add to Apple Wallet

---

**Nye**
Saturday, 18 May 2024 7:30PM
Donald Gordon Theatre,
**Stairs A Level 1 Door 3 Box C - C1**
Rhif tocyn: 15234816

Add to Google Wallet
Add to Apple Wallet

## CYRRAEDD LEFELAU GWAHANOL Y THEATR

Os oes gennych docyn ar gyfer balconi neu focs, siaradwch ag aelod o'r tîm a fydd yn gallu rhoi cyfarwyddiadau penodol i chi.

O'r cyntedd mae grisiau ar yr ochr chwith a'r dde. Ar waelod y grisiau mae'n bosibl y bydd ein staff diogelwch yn chwilio drwy eich bag. Yna gallwch chi fynd i fyny'r grisiau neu ddefnyddio'r lifft.



Mae toiledau hygyrch ar bob lefel. Ar Lefel 2 mae toiledau dynion a menywod ar ddau ochr yr adeilad. O Lefel 3 i fyny, mae toiledau menywod ar ochr y Gogledd a thoiledau dynion ar ochr y De.



## LEFEL UN DE (SEDDI

CANOLFAN MILENIWM CYMRU
WALES MILLENNIUM CENTRE

## GWAELOD A SEDDI CANOL Y LLAWR, RHIFAU SEDDI 29–55, BOCSYS B + D)

Ar ôl dod i mewn i'r cyntedd drwy'r drysau blaen byddwch chi'n troi i'r dde ac yn mynd i fyny un rhediad o risiau (22 o risiau), neu gallwch chi ddefnyddio'r lifft.

Yna byddwch chi'n troi i'r chwith (neu'r dde os byddwch chi'n dod o'r lifft) ac yn dilyn y llwybr drwy'r drysau. Bydd y fynedfa gyntaf i'r theatr yn mynd i **Seddi Canol y Llawr**. I gyrraedd mynedfa y **Seddi Gwaelod**, byddwch chi'n mynd i lawr y ramp i'r dde.



## LEFEL UN GOGLEDD (SEDDI GWAELOD A SEDDI CANOL Y LLAWR, RHIFAU SEDDI 1–28, BOCSYS A + C)

Ar ôl dod i mewn i'r cyntedd drwy'r drysau blaen byddwch chi'n troi i'r chwith ac yn mynd i fyny un rhediad o risiau (22 o risiau), neu gallwch chi ddefnyddio'r lifft.


Yna byddwch chi'n troi i'r dde (neu'r chwith os byddwch chi'n dod o'r lifft) ac yn dilyn y llwybr drwy'r drysau. Bydd y fynedfa gyntaf i'r theatr yn mynd i **Seddi Canol y Llawr**. I gyrraedd mynedfa y **Seddi Gwaelod**, byddwch chi'n mynd i lawr y ramp i'r chwith.



CANOLFAN MILENIWM CYMRU
WALES MILLENNIUM CENTRE

## LEFEL 2 DE (UWCH SEDDI'R LLAWR, RHIFAU SEDDI 29–55, BALCONI B)

Ar ôl dod i mewn i'r cyntedd drwy'r drysau blaen byddwch chi'n troi i'r dde tuag at y lifft neu'r grisiau. Byddwch chi'n mynd i fyny un rhediad o risiau (22 o risiau). Yna byddwch chi'n troi i'r dde ac yn mynd i fyny ail rediad o risiau (22 o risiau).




Ar Lefel 2 byddwch chi'n cerdded ymlaen i gyrraedd Bar Awen. O'r lifft, byddwch chi'n troi i'r dde wrth adael ac yn cerdded ymlaen i gyrraedd y bar.

Byddwch chi'n mynd i mewn i'r theatr drwy'r drysau arian cyntaf ar y dde ac yn troi i'r dde i fynd i lawr ramp a dilyn y llwybr, neu fel arall gallwch chi gerdded i lawr pedwar gris i'r fynedfa i **Uwch Seddi'r Llawr**.





## LEFEL 2 GOGLEDD (UWCH SEDDI'R LLAWR, RHIFAU SEDDI 1–28, BALCONI A)

Ar ôl dod i mewn i'r cyntedd drwy'r drysau blaen byddwch chi'n troi i'r chwith tuag at y lifft neu'r grisiau. Byddwch chi'n mynd i fyny un rhediad o risiau (22 o risiau). Yna byddwch chi'n troi i'r chwith ac yn mynd i fyny ail rediad o risiau (22 o risiau).

Byddwch chi'n cerdded ymlaen i gyrraedd Bar Awen. O'r lifft, byddwch chi'n troi i'r chwith wrth adael ac yn cerdded ymlaen i gyrraedd y bar.


Byddwch chi'n mynd i mewn i'r theatr drwy'r drysau arian cyntaf ar y chwith ac yn troi i'r chwith i fynd i lawr ramp a dilyn y llwybr, neu fel arall gallwch chi gerdded i lawr pedwar gris i'r fynedfa i **Uwch Seddi'r Llawr**.





## LEFEL 3 DE (BLAEN Y CYLCH, RHIFAU SEDDI 29–55, BALCONÏAU D A F)


Ar ôl dod i mewn i'r cyntedd drwy'r drysau blaen byddwch chi'n troi i'r dde tuag at y lifft neu'r grisiau. Byddwch chi'n mynd i fyny un rhediad o risiau (22 o risiau). Byddwch chi'n troi i'r dde ac yn mynd i fyny ail rediad o risiau (22 o risiau), ac yna byddwch chi'n troi i'r dde eto ac yn mynd i fyny trydydd rediad o risiau (22 o risiau).






Unwaith y byddwch chi wedi cyrraedd Lefel 3 byddwch chi'n mynd drwy'r drysau dwbl brown ar y dde ac mae naw gris i lawr i gyrraedd **Blaen y Cylch**. O'r lifft, byddwch chi'n troi i'r dde wrth adael i gyrraedd y drysau dwbl brown.






## LEFEL 3 GOGLEDD (BLAEN Y CYLCH, RHIFAU SEDDI 1–28, BALCONÏAU C A E)

Ar ôl dod i mewn i'r cyntedd drwy'r drysau blaen byddwch chi'n troi i'r chwith tuag at y lifft neu'r grisiau. Byddwch chi'n mynd i fyny un rhediad o risiau (22 o risiau). Byddwch chi'n troi i'r chwith ac yn mynd i fyny ail rediad o risiau (22 o risiau), ac yna byddwch chi'n troi i'r chwith eto ac yn mynd i fyny trydydd rediad o risiau (22 o risiau).




Unwaith y byddwch chi wedi cyrraedd Lefel 3 byddwch chi'n mynd drwy'r drysau dwbl brown ar y chwith ac mae naw gris i lawr i gyrraedd **Blaen y Cylch**. O'r lifft, byddwch chi'n troi i'r chwith wrth adael i gyrraedd y drysau dwbl brown.





## LEFEL 4 DE (Y CYLCH A'R CYLCH UCHAF, RHIFAU SEDDI 29–55, BALCONI H)

**Ar Lefel 4 gallwch chi fynd i mewn i'r Cylch a'r Cylch Uchaf. Wrth gyrraedd y lefel yma mae'n bwysig gwybod ble rydych chi'n eistedd er mwyn osgoi dryswch.**



Ar ôl dod i mewn i'r cyntedd drwy'r drysau blaen byddwch chi'n troi i'r dde tuag at y lifft neu'r grisiau. Byddwch chi'n mynd i fyny un rhediad o risiau (22 o risiau). Byddwch chi'n troi i'r dde ac yn mynd i fyny ail rediad o risiau (22 o risiau), ac yna byddwch chi'n troi i'r dde eto ac yn mynd i fyny trydydd rediad o risiau (22 o risiau). Unwaith y byddwch chi ar Lefel 3 byddwch chi'n mynd yn syth ymlaen ac i fyny dau rediad pellach o risiau (11 o risiau yr un).








Ar Lefel 4, bydd drysau'r lifft yn agor ar yr ochr arall, nid yr ochr yr aethoch i mewn iddo. Ar ôl gadael y lifft byddwch chi yn y coridor mewnol, a byddwch chi'n gweld bwlch o'ch blaen. Drwy'r bwlch gallwch chi droi i'r dde i gyrraedd **Blaen y Cylch Uchaf** neu i'r chwith i gyrraedd **Cefn y Cylch**.

Wrth gyrraedd Lefel 4 o'r grisiau, byddwch chi'n gweld drysau dwbl brown a fydd yn mynd â chi i'r coridor mewnol. Yn y coridor mewnol mae'r lifft, ac yma gallwch fynd i mewn i **Flaen y Cylch Uchaf**. Ewch drwy'r bwlch ar y chwith ac ewch i lawr y ramp i'r dde.








I gyrraedd **Cefn y Cylch** o'r grisiau, peidiwch â mynd drwy'r drysau dwbl brown a throwch i'r chwith i gyrraedd Bar Horizons. Byddwch chi'n mynd i mewn i'r theatr drwy'r drysau arian cyntaf ar y dde ac yn troi i'r dde i fynd i lawr ramp a dilyn y llwybr, neu fel arall gallwch chi gerdded i lawr chwe gris i'r fynedfa i **Gefn y Cylch**.




## LEFEL 4 GOGLEDD (Y CYLCH A'R CYLCH UCHAF, RHIFAU SEDDI 1–28, BALCONI G)




**Ar Lefel 4 gallwch chi fynd i mewn i'r Cylch a'r Cylch Uchaf. Wrth gyrraedd y lefel hon mae'n bwysig gwybod ble rydych chi'n eistedd er mwyn osgoi dryswch.**

Ar ôl dod i mewn i'r cyntedd drwy'r drysau blaen byddwch chi'n troi i'r chwith tuag at y lifft neu'r grisiau. Byddwch chi'n mynd i fyny un rhediad o risiau (22 o risiau). Byddwch chi'n troi i'r chwith ac yn mynd i fyny ail rediad o risiau (22 o risiau), ac yna byddwch chi'n troi i'r chwith eto ac yn mynd i fyny trydydd rediad o risiau (22 o risiau). Unwaith y byddwch chi ar Lefel 3 byddwch chi'n mynd yn syth ymlaen ac i fyny dau rediad pellach o risiau (11 o risiau yr un).



Ar Lefel 4, bydd drysau'r lifft yn agor ar yr ochr arall, nid yr ochr yr aethoch i mewn iddo. Ar ôl gadael y lifft byddwch chi yn y coridor mewnol, a byddwch chi'n gweld bwlch o'ch blaen. Drwy'r bwlch gallwch chi droi i'r chwith i gyrraedd **Blaen y Cylch Uchaf** neu i'r dde i gyrraedd **Cefn y Cylch**.


Wrth gyrraedd Lefel 4 o'r grisiau, byddwch chi'n gweld drysau dwbl brown a fydd yn mynd â chi i'r coridor mewnol. Yn y coridor mewnol mae'r lifft, ac yma gallwch fynd i mewn i **Flaen y Cylch Uchaf**. Ewch drwy'r bwlch ar y dde ac ewch i lawr y ramp i'r chwith.



I gyrraedd **Cefn y Cylch** o'r grisiau, peidiwch â mynd drwy'r drysau dwbl brown a throwch i'r dde i gyrraedd Bar Horizons. Byddwch chi'n mynd i mewn i'r theatr drwy'r drysau arian cyntaf ar y chwith ac yn troi i'r chwith i fynd i lawr ramp a dilyn y llwybr, neu fel arall gallwch chi gerdded i lawr chwe gris i'r fynedfa i **Gefn y Cylch**.








## LEFEL 5 DE (CYLCH UCHAF, RHIFAU SEDDI 29–55)

Ar ôl dod i mewn i'r cyntedd drwy'r drysau blaen byddwch chi'n troi i'r dde tuag at y lifft neu'r grisiau. Byddwch chi'n mynd i fyny un rhediad o risiau (22 o risiau). Byddwch chi'n troi i'r dde ac yn mynd i fyny ail rediad o risiau (22 o risiau), ac yna byddwch chi'n troi i'r dde eto ac yn mynd i fyny trydydd rediad o risiau (22 o risiau). Unwaith y byddwch chi ar Lefel 3 ewch syth ymlaen ac i fyny pedwar rhediad pellach o risiau (11 o risiau yr un) i Lefel 5.

Wrth gyrraedd Lefel 5 o'r grisiau, byddwch chi'n gweld drysau dwbl brown a fydd yn mynd â chi i'r coridor mewnol. Yma gallwch fynd i mewn i **Ganol y Cylch Uchaf**, a dyma lle mae'r lifft. Ar ôl mynd drwy'r drysau, trowch i'r chwith a bydd y drws i **Ganol y Cylch Uchaf** ar y dde. Mae dau ris i fyny i'r drws.






Ar Lefel 5, bydd drysau'r lifft yn agor ar yr ochr arall, nid yr ochr yr aethoch i mewn iddo. Ar ôl gadael y lifft byddwch chi yn y coridor mewnol. Byddwch chi'n troi i'r chwith, ac yna i'r dde cyn y drysau dwbl brown – bydd y drws i **Ganol y Cylch Uchaf** ar y dde. Mae dau ris i fyny i'r drws.



**Unwaith y byddwch chi yn y theatr, nodwch fod grisiau serth i fyny ac i lawr yn yr ardal yma i gyrraedd eich seddi.**

I gyrraedd **Cefn y Cylch Uchaf** o'r grisiau, peidiwch â mynd drwy'r drysau dwbl brown a throwch i'r chwith i gyrraedd Bar Stones. (O'r lifft, trowch i'r chwith i fynd drwy'r drysau dwbl brown ac yna trowch i'r dde i gyrraedd y bar). Byddwch chi'n mynd i mewn i'r theatr drwy'r drysau arian cyntaf ar y dde ac yn troi i'r dde i fynd i fyny 16 o risiau ac yna'n troi i'r chwith i gyrraedd y drws i'r theatr.







**Unwaith y byddwch chi yn y theatr, nodwch fod grisiau serth i lawr yn yr ardal yma i gyrraedd eich seddi.**

Drwy'r drysau arian, ar y chwith mae ein lifft hygyrch i gyrraedd y llefydd ar gyfer cadeiriau olwyn ar y ochr yma.

I alw'r lifft yma, rhaid pwyso a dal y botwm sydd tu allan. Yn y lifft byddwch chi'n dewis y llawr rydych chi am fynd iddo (6 os ydych chi'n mynd i fyny neu 5 os ydych chi'n mynd i lawr) ac eto rhaid dal y botwm i lawr. Os na fyddwch chi'n dal y botwm i lawr ni fydd y lifft yn symud. Os byddwch chi'n cael unrhyw drafferth, bydd ein tywyswyr wrth law i'ch helpu.



## LEFEL 5 GOGLEDD (CYLCH UCHAF, RHIFAU SEDDI 1–28)

Ar ôl dod i mewn i'r cyntedd drwy'r drysau blaen byddwch chi'n troi i'r chwith tuag at y lifft neu'r grisiau. Byddwch chi'n mynd i fyny un rhediad o risiau (22 o risiau). Byddwch chi'n troi i'r chwith ac yn mynd i fyny ail rediad o risiau (22 o risiau), ac yna byddwch chi'n troi i'r chwith eto ac yn mynd i fyny trydydd rediad o risiau (22 o risiau). Unwaith y byddwch chi ar Lefel 3 ewch syth ymlaen ac i fyny pedwar rhediad pellach o risiau (11 o risiau yr un) i Lefel 5.



Wrth gyrraedd Lefel 5 o'r grisiau, byddwch chi'n gweld drysau dwbl brown a fydd yn mynd â chi i'r coridor mewnol. Yma gallwch fynd i mewn i **Ganol y Cylch Uchaf**, a dyma lle mae'r lifft. Ar ôl mynd drwy'r drysau, trowch i'r dde a bydd y drws i **Ganol y Cylch Uchaf** ar y chwith. Mae dau ris i fyny i'r drws.




Ar Lefel 5, bydd drysau'r lifft yn agor ar yr ochr arall, nid yr ochr yr aethoch i mewn iddo. Ar ôl gadael y lifft byddwch chi yn y coridor mewnol. Byddwch chi'n troi i'r dde, ac yna i'r chwith cyn y drysau dwbl brown – bydd y drws i **Ganol y Cylch Uchaf** ar y chwith. Mae dau ris i fyny i'r drws.



**Unwaith y byddwch chi yn y theatr, nodwch fod grisiau serth i fyny ac i lawr yn yr ardal yma i gyrraedd eich seddi.**

I gyrraedd **Cefn y Cylch Uchaf** o'r grisiau, peidiwch â mynd drwy'r drysau dwbl brown a throwch i'r dde i gyrraedd Bar Stones. (O'r lifft, trowch i'r dde i fynd drwy'r drysau dwbl brown ac yna trowch i'r chwith i gyrraedd y bar). Byddwch chi'n mynd i mewn i'r theatr drwy'r drysau arian cyntaf ar y chwith ac yn troi i'r chwith i fynd i fyny 16 o risiau ac yna'n troi i'r dde i gyrraedd y drws i'r theatr.





Os bydd angen cymorth arnoch ar unrhyw adeg yn ystod eich ymweliad, gofynnwch i aelod o staff neu'r staff diogelwch.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am eich ymweliad â Chanolfan Mileniwm Cymru, mae'n bosibl bod yr ateb i'ch cwestiwn yn yr adran **Cwestiynau Cyffredin** ar ein gwefan.

Gan fod ein perfformiadau i gyd yn wahanol, mae'n bosibl na fydd rhywfaint o'r wybodaeth yn y Stori Weledol yma yn berthnasol ar gyfer eich ymweliad.

Rydyn ni'n gobeithio y byddwch chi'n mwynhau eich amser yng Nghanolfan Mileniwm Cymru!